6 Medi 2021

Annwyl Riant / Ofalwr,

Croeso cynnes yn ôl i'r ysgol ar ddechrau blwyddyn academaidd newydd. Croeso arbennig i rieni a gofalwyr sy'n newydd i'r Ysgol.

DIOLCH I STAFF YR YSGOL

Yn y lle cyntaf, hoffwn ddiolch o galon i holl staff yr Ysgol am eu cefnogaeth a'u hamynedd wrth i ni ymbaratoi ar gyfer symud lleoliad nifer o adrannau yn ystod y tymor sy'n dod, a hynny oherwydd agor yr adeilad newydd yn cynnwys y Ffreutur, ar ddiwedd Medi. Yr Adran Gymraeg fydd yn symud i lawr cyntaf yr adeilad, a bydd hynny yn creu gofod yn yr hen adeiladau i adrannau eraill symud cam wrth gam, gan obeithio gorffen y broses erbyn Ionawr.

CANLYNIADAU ARHOLIADAU ALLANOL 2021

Llongyfarchiadau gwresog i bob disgybl ar eu canlyniadau TGAU a Lefel A, a oedd yn benllanw gwaith caled a dyfalbarhad . Diolch yn fawr i chi fel rhieni am eich cefnogaeth ar hyd y daith a'ch parodrwydd i gydweithio gyda'r ysgol – rydym mor ymwybodol o'r bartneriaeth bwysig hon. Diolchwn hefyd i'r staff am eu harweiniad a'u hymrwymiad i'r myfyrwyr dros y flwyddyn a hanner diwethaf yn benodol.

BLWYDDYN 7 A 12 YN ÔL

Cawsom ddiwrnod hyfryd yng nghwmni Blwyddyn 7 a Blwyddyn 12 ar Ddydd Gwener. Croesawyd 195 o ddisgyblion newydd i flwyddyn 7, a daeth tua 90 o ddisgyblion yn ôl i ymuno â Blwyddyn 12 Partneriaeth Chweched Gŵyr / Bryn Tawe; felly 185 myfyriwr yn y Chweched i gyd. Cyfanswm poblogaeth yr ysgol felly ar gyfer 2021-22 yw 1154 o ddisgyblion.
Edrychwn ymlaen at groesawu Blwyddyn 8 - 11 yn ôl dros y dyddiau nesaf.

NEWYDDION AM STAFF

Mae **Mrs Paula Davies** yn dychwelyd i'r Ysgol fel athrawes Gwyddoniaeth a **Miss Ria Evans** fel cynorthwy-ydd Dysgu.
Yn ogystal, croesawn athrawon newydd i'r ysgol sef **Mr Robert Davies** (Mathemateg), **Miss Charlotte Doyle** (Hanes), **Miss Fflur Mathias** (Cymraeg), **Miss Gabrielle Murray** (Gwyddoniaeth), **Mrs Lauren Prescott** (Saesneg), **Mrs Nerys Vebrel** (Saesneg), a **Mr Rhodri Wall** (Gwyddoniaeth).

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Mae **Miss Eve Clement**, **Miss Ffion Haf Davies**, **Miss Eleri Hughes**, **Miss Carys Messer**, **Miss Emily Studley,** a **Miss Gwenllian Towers** yn ymuno â thîm y cynorthwywyr dysgu. Dymunwn yn dda iddynt ar ddechrau eu hamser yn Ysgol Gyfun Gŵyr.

Dymunwn yn dda hefyd i'r nifer o staff sy'n ysgwyddo cyfrifoldebau newydd yn yr Ysgol fel Penaethiaid adran, Cydlynwyr traws ysgol, Arweinyddion Meysydd Dysgu a Phrofiad, Penaethiaid Blwyddyn, Swyddogion cefnogi i'r Chweched, a'r sawl sy'n sefydlu dwy ganolfan newydd - yr Encil a'r Trobwynt.

GWERSI OFFERYNNOL CERDD

Wele lythyr pwysig i bawb sy'n dymuno derbyn gwersi offerynnol a lleisiol Cerdd ym mis Medi.
https://bit.ly/36zkecH
Danfonwyd y llythyr hwn allan cyn gwyliau'r haf, ac mae nifer o ddisgyblion a rhieni eisoes wedi llenwi'r ffurflen i wneud cais am wersi offerynnol. Anogir pob un sydd yn awyddus i'w plant dderbyn y gwersi hyn, yn enwedig gyda disgyblion Blwyddyn 7, i ymateb i'r cais hwn am wybodaeth, ar fyrder.

AP BWYD

Oherwydd na fydd yr adeilad newydd yn barod, bydd y **Ffreutur ar gau** am y tair wythnos gyntaf. Bydd disgwyl i bob plentyn (ar wahân i ddisgyblion sy'n derbyn cinio rhad) ddod â phecyn bwyd a digon o ddiod ar gyfer y diwrnod cyfan gyda nhw yn feunyddiol. Bydd disgyblion sydd yn derbyn Cinio Rhad yn derbyn pecynnau bwyd pwrpasol am y cyfnod hwn.
Pan fydd y Ffreutur newydd yn agor ar ddiwedd Medi, bydd disgwyl i ddisgyblion ddefnyddio ein Ap Bwyd i archebu bwyd amser egwyl neu ginio ar eu ffonau symudol. Mae mwyafrif mawr o ddisgyblion bellach yn hen gyfarwydd â'r Ap, a byddwn yn hysbysu rhieni
a disgyblion newydd o sut i ddefnyddio'r meddalwedd maes o law, cyn i'r Ffreutur newydd agor.

NEWID CYFUNDREFN ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL YM MEDI 2021

Mae'r gyfundrefn ADY yng Nghymru yn newid o fis Medi 2021. Am wybodaeth bellach, ewch i wefan yr ysgol ac i'r dudalen ADY. Dyma'r Ddolen: https://www.yggwyr.org.uk/ady/

CYWIRO CAMGYMERIAD

Dyma'r wybodaeth gywir parthed dyddiau HMS ar gyfer 2021-22.
Roedd dau gamgymeriad yn yr hyn a rannwyd gyda rhieni wythnos ddiwethaf.
Diolch i'r rhieni sylwgar a dynnodd ein sylw at hyn, ac ymddiheuriadau am yr amryfusedd.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Dyddiau HMS 2021-22
HMS 1 Dydd Iau 2 Medi 2021
HMS 2 Dydd Llun 29 Tachwedd 2021
HMS 3 Dydd Mawrth 4 Ionawr 2022
HMS 4 Dydd Gwener 18 Chwefror 2022
HMS 5 Dydd Iau **23** Mehefin 2022
HMS 6 Dydd Iau **14** Gorffennaf 2022 (I'w gadarnhau)

OFFER YSGOL

A fyddech mor garedig â sicrhau bod eich plentyn yn dod â chas bensiliau i'r ysgol yn ddyddiol sy'n cynnwys yr offer ysgrifennu angenrheidiol megis ysgrifbin, pensiliau, rwber, uwch-oleuwyr a phren mesur. Bydd offer megis glud hefyd yn bwysig. NI FYDD MODD I'CH PLENTYN RANNU ADNODDAU Â DISGYBLION ERAILL.

Mae offer Mathemateg hefyd yn angenrheidiol (sy'n cynnwys cyfrifiannell gwyddonol, onglydd a chwmpawd). Gellir prynu pecyn offer Mathemateg yn yr adran am £3 a chyfrifiannell gwyddonol am £10. Mae **Llyfryn Rhifedd dwyieithog** defnyddiol iawn hefyd ar werth yn yr adran am £6.

GWISG YSGOL AC EIDDO DISGYBLION

Mae cydymffurfio gyda gwisg swyddogol yr ysgol yn bwysig iawn - trowsus neu sgert ddu blaen (nid jeans, leggings), esgidiau du (heb unrhyw liw arall),siwmper ddu gyda bathodyn yr ysgol (nid 'hoody'), crys polo glas gyda bathodyn yr ysgol. A fyddech mor garedig â gosod **enwau ar eiddo** fel ein bod yn medru dychwelyd eiddo coll yn syth i'r perchennog. Mae croeso i rieni gysylltu â'r Swyddfa i ofyn am eiddo coll.

POLISI FFONAU SYMUDOL

Rhoddir caniatâd i ddisgyblion ddod â ffon symudol i'r ysgol am resymau diogelwch. Fodd bynnag rhaid eu defnyddio yn gyfrifol ar bob adeg. Ni ddylid defnyddio ffonau symudol mewn gwersi ac os gwneir hyn heb ganiatâd fe fydd y ffôn yn cael ei ddiheintio a'i gymryd oddi ar y disgybl gan yr athro a'i roi yn ddiogel yn y swyddfa tan fod rhiant yn cysylltu â'r ysgol i'w gael yn ôl.

PRESENOLDEB

100% yw'r targed ar gyfer pob unigolyn. Mae colli un diwrnod o ysgol heb reswm da iawn yn tarfu ar addysg eich plentyn yn ddiangen. Gofynnwn am eich cefnogaeth i sicrhau bod eich plentyn yn

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

anelu i fod yn bresennol yn ysgol am bob dydd o Fedi tan Orffennaf, yn enwedig oherwydd y cyfnod o addysg ffurfiol a gollwyd llynedd.
Er hyn, os yw eich plentyn yn dost, neu yn arddangos unrhyw symptomau Covid-19, gofynnwn i chi eu cadw gartref, gan ddod yn ôl i'r Ysgol pan yn holliach.

YMDDYGIAD
Ymhyfrydwn yng ngallu ein disgyblion i fihafio, ac ymddwyn yn briodol ar safle'r Ysgol. Byddwn yn mynnu bod disgyblion a myfyrwyr yn cydymffurfio a'n disgwyliadau uchel yn hyn o beth, a gwerthfawrogwn pe byddech yn gallu pwysleisio hyn i'ch plant wrth iddynt ddod 'nôl i'r Ysgol. Bydd yr Ysgol yn delio yn llym ond yn deg ag unrhyw gamymddwyn, gan obeithio mai prin fydd yr achosion hyn.

MESURAU COVID-19
Rydym yn parhau i danlinellu'r angen i gynnal safonau hylendid personol, golchi dwylo yn aml, ac awyru stafelloedd, Bydd ardaloedd prysur o'r Ysgol yn cael eu glanhau yn gyson. Bwriedir cynnal cyfundrefnau unffordd, sicrhau bod desgiau ym mhob stafell ddosbarth yn wynebu'r blaen, a chynnal pellter ymarferol briodol rhwng staff a disgyblion. Mae gofyn i bob plentyn i wisgo mwgwd ar y bws i'r Ysgol, a'u gwisgo hefyd mewn ardaloedd cyfyng wrth deithio o wers i wers ar y safle.

DOD Â THECLYNNAU I'R YSGOL
Bydd modd i fyfyrwyr a disgyblion **Blynyddoedd 10 - 13** ddod â'u **cliniaduron** a'u **tabledi** i'r ysgol er mwyn ymgysylltu â Wi-fi yr Ysgol. Bydd hyn o fantais mewn nifer o bynciau, er mwyn cyflawni gwaith a derbyn gwybodaeth neu ymchwilio. Gofynnwn i chi ystyried caniatáu i'ch plant ddod a'u teclynnau i'r Ysgol er mwyn manteisio ar y cyfle. Bydd disgyblion yn dod â nhw ar y safle ar risg eu hunain.

GWERSI'R CHWECHED
Am bythefnos ar ddechrau'r tymor, ni fydd myfyrwyr y Chweched yn teithio rhwng Ysgol Gyfun Gwyr ac Ysgol Bryntawe i dderbyn gwersi yn y pynciau sy'n cael eu cynnig yn llawn neu yn rhannol yn yr ysgol arall. O ganlyniad, bydd gwersi'r Chweched ar draws y Bartneriaeth yn cael eu ffrydio yn fyw am y pythefnos cyntaf ar Microsoft Teams.

RHIENI AR Y SAFLE
Am y tro, yn unol â'r bwriad i gyfyngu ar y perygl o ledaenu'r firws, parhawn i ofyn i rieni gysylltu â'r Ysgol drwy e-bost yn y lle cyntaf os am drafod unrhyw agwedd o fywyd eich plentyn yn yr ysgol. Gan fod staff dysgu yn symud yn gyson rhwng stafelloedd oherwydd cyfyngderau'r sefyllfa

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

bresennol, bydd e-byst yn ddull mwy effeithiol o gyfathrebu gyda staff yr Ysgol. Bydd Pennaeth Blwyddyn eich plentyn yn ymateb i'ch neges mor fuan â phosib. Ni fydd modd cynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb ar y safle am y tro. Os oes rhaid i chi ddod i'r Ysgol i gasglu eich plentyn, gofynnwn i chi aros y tu allan i ddrws y Dderbynfa wrth aros. Diolch ymlaen llaw i chi am eich cydweithrediad yn hyn o beth.

CYSYLLTU Â'R YSGOL

Os oes cwestiynau neu ymholiadau gyda chi, mae modd i chi gysylltu gyda Swyddfa'r ysgol (01792 872403) neu'r Pennaeth Blwyddyn perthnasol, gan ddefnyddio'r cyfeiriadau e-bost canlynol:

Bl 7 - Mrs Joanna Connick – ConnickJ3@hwbcymru.net
Bl 8 - Miss Branwen Dafydd – DafyddB9@hwbcymru.net
Bl 9 - Mr Dai Long – LongD4@hwbcymru.net
Bl 10 - Mr Lloyd Henry – HenryA12@hwbcymru.net
Bl 11 - Mrs Sioned James – JamesS252@hwbcymru.net
Bl12/13 - Mrs Annette Tilson - TilsonA1@hwbcymru.net (Pennaeth y Chweched)
- Mrs Jan Ohlsson Jones – OhlssonJ1@hwbcymru.net (Is-bennaeth y Chweched)

Mae modd i chi hefyd i gysylltu â'n Swyddog Bugeiliol ac Ymddygiad Mr Brian Thomas ar ThomasB514@hwbcymru.net.

Byddwn fel ysgol yn dibynnu ar eich cefnogaeth a'ch cydweithrediad ar hyd y flwyddyn sydd o'n blaen. Fel ysgol anelwn at gadw aelodau'r gymuned yn iach a diogel; bwriadwn barhau i gynnal y safonau academaidd uchaf.

Edrychwn ymlaen at gydweithio'n agos gyda chi unwaith eto fel rhieni a gofalwyr.

Pennaeth

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

6 September 2021

Dear Parent / Carer,

A warm welcome back to the school at the start of a new academic year. A special welcome to parents and carers who are new to the School.

THANKS TO SCHOOL STAFF

In the first instance, I would like to sincerely thank all the staff at the School for their support and patience as we prepare for the moving of a number of departments during the coming term, due to the opening of the new building (including the Canteen), at the end of September. The Welsh Department will move into the first floor of the building, which will create space in the old buildings for other departments to move one by one, finishing the process by January.

EXTERNAL EXAMINATION RESULTS 2021

Warm congratulations to all pupils on their GCSE and A Level results, which were the culmination of much hard work and perseverance. Thank you as parents for your support along the way and your willingness to work with the school - we are so aware of this important partnership.
We also thank the staff for their guidance and commitment to the students over the past year and a half in particular.

THE RETURN OF YEARS 7 AND 12

We had a great day with Year 7 and Year 12 on Friday. We welcomed 195 new pupils to Year 7, and about 90 pupils returned to join Year 12 of the Gŵyr / Bryn Tawe Sixth Form Partnership; so 185 students in the Sixth Form in all. The total school population for 2021-22 is therefore 1154 pupils. We look forward to welcoming Year 8 - 11 back over the next few days.

NEW STAFF

Mrs Paula Davies returns to the School as a Science teacher and Miss Ria Evans as a Teaching Assistant.
We also welcome new teachers to the school, **Mr Robert Davies** (Mathematics), **Miss Charlotte Doyle** (History), **Miss Fflur Mathias** (Cymraeg), **Miss Gabrielle Murray** (Science), **Mrs Lauren Prescott** (English), Mrs Nerys Vebrel (English), and **Mr Rhodri Wall** (Science).

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

Miss Eve Clement, **Miss Ffion Haf Davies**, **Miss Eleri Hughes**, **Miss Carys Messer**, **Miss Emily Studley**, and **Miss Gwenllian Towers** join the team of teaching assistants. We wish them well in their time at Ysgol Gyfun Gŵyr.

We also wish the many staff who aresholdering new responsibilities at the School, such as Heads of department, cross-school Co-ordinators, Heads of Learning and Experience, Heads of Year, Sixth Form Support Officers, and those who are establishing two new areas of support - the Encil and Trobwynt.

MUSIC INSTRUMENTAL LESSONS

See an important letter for all those who wish to receive instrumental and vocal lessons from September: https://bit.ly/36zkecH

This letter was sent out before the summer holidays, and many pupils and parents have already filled in the form to apply for instrumental lessons. All those who are keen for their children to receive these lessons, especially with Year 7 pupils, are urged to respond to this request for information, as a matter of urgency.

FOOD ORDERING AP

Because the new build is still not ready, the Canteen will be closed for the first three weeks of term. Every child (except for pupils who receive a free school meal) will be expected to bring a packed lunch and plenty to drink on a daily basis.to school. Food will be provided for the pupils who normally receive Free School Meals for this period.

When the new Canteen opens at the end of September, pupils will be expected to use our Food Ordering App to order food for break or lunch times on their mobile phones. A large majority of pupils are now familiar with the App, and parents of new pupils will be informed on how to use the software in due course, before the new Canteen opens.

CHANGE IN ADDITIONAL LEARNING NEEDS PROVISION IN SEPTEMBER 2021

The ALN system in Wales is changing from September 2021. For further information, visit the school website and the ALN page. Here is the Link: https://www.yggwyr.org.uk/en/aln/

ERRATUM

Here is the correct information regarding INSET days for 2021-22. There were two mistakes in what was shared with parents last week. Thank you to the eagle-eyed parents who brought this to our attention, and apologies for the oversight.

Pennaeth: Mr Dafydd Jenkins BSc
Stryd Talbot, Tre-gŵyr, Abertawe, SA4 3DB Ffôn: (01792) 872403 Ffacs: (01792) 874197
E-bost: ysgol.gyfun.gwyr@swansea.gov.uk http://www.yggwyr.swansea.sch.uk

INSET Days 2021-22
INSET 1 Thursday 2 September 2021
INSET 2 Monday 29 November 2021
INSET 3 Tuesday 4 January 2022
INSET 4 Friday 18 February 2022
INSET 5 Thursday **23** June 2022
INSET 6 Thursday **14** July 2022 (to be confirmed)

RESOURCES FOR SCHOOL
Please ensure that your child brings a pencil case to school which includes the necessary stationery such as pen, pencils, rubber, highlighters and ruler. YOUR CHILD SHOULD NOT SHARE RESOURCES WITH OTHER PUPILS.

Maths equipment is also required (which includes a scientific calculator, protractor and compass). A Maths toolkit can be purchased in the Department for £3 and a scientific calculator for £10. A very useful bilingual Numeracy Booklet is also on sale in the Dept. for £6.

SCHOOL UNIFORM AND PUPIL PROPERTY
Compliance with the official school uniform is very important - black trousers or skirt (no jeans, nor leggings), black shoes (no other colour), black jumper with school badge (not 'hoody'), and the blue polo shirt with the school.badge. Please put names on your child's property so that we can return anything which is misplaced back to the owner. Parents are welcome to contact the Office to discuss any lost property.

MOBILE PHONE POLICY
Pupils are allowed to bring a mobile phone to school for safety reasons. However they must be used responsibly at all times. Mobile phones should not be used in lessons and, if used without permission, the phone will be disinfected and taken by the teacher and placed safely in the school office until a parent contacts the school.

ATTENDANCE
The attendance target for each individual is 100%. Missing one day of school without a very good reason unnecessarily disrupts your child's education. We ask for your support to ensure that your

child aims to be in School for every day from September until July, especially in light of the period of formal education lost last year.
However, if your child is ill, or exhibits any Covid-19 symptoms, we ask that you keep them at home, returning to School when fully healthy.

BEHAVIOUR
We take pride in our pupils' ability to behave appropriately on the School site. We will require pupils and students to comply with our high expectations in this regard, and would appreciate it if you could emphasise this to your children as they return to School. The School will deal strictly but fairly with any misconduct, hoping that these cases will be few and far between.

COVID-19 MEASURES
We continue to emphasise the need to maintain standards of personal hygiene, frequent hand washing and ventilation of rooms. Busy areas of the School will be regularly cleaned. It is intended to maintain one-way systems, ensuring that desks in all classrooms are front facing, and maintain an appropriate reasonable distance between staff and pupils. Every child is required to wear a mask on the bus to School, and also to wear them in confined areas when travelling from lesson to lesson on site.

LAPTOPS AND TABLETS
Students and pupils in Years 10 - 13 will be able to bring their laptops and tablets to school to connect with the School Wi-fi. This will be beneficial in a number of subjects, both for work and accessing information or for research. Please consider allowing your children to bring their devices to School to take advantage of this opportunity. Pupils will bring them on site at their own risk.

SIXTH FORM LESSONS
For two weeks at the start of term, Sixth Form students will not travel between Ysgol Gyfun Gwyr and Ysgol Bryntawe to receive lessons in the subjects offered wholly or partly at the other school. As a result, Sixth Form lessons across the Partnership will be streamed live for the first two weeks on Microsoft Teams.

PARENTS ON SITE
For the next few weeks, in line with the intention to limit the risk of spreading the virus, we continue to ask parents to contact the School by email in the first instance to discuss any aspect of

your child's life at school. Emails will be a more effective method of communicating with School staff. Your child's Head of Year will respond to your message as soon as possible. It will not be possible to hold face to face meetings on site for the time being. If you have to come to the School to collect your child, we ask that you wait outside the Reception door while waiting. Thank you in advance for your co-operation in this regard.

CONTACTING THE SCHOOL

If you have any questions or queries, you can contact the school office (01792 872403) or the relevant Head of Year, using the following email addresses:

Year 7 - Mrs Joanna Connick – ConnickJ3@hwbcymru.net
Year 8 - Miss Branwen Dafydd – DafyddB9@hwbcymru.net
Year 9 - Mr Dai Long – LongD4@hwbcymru.net
Year 10 - Mr Lloyd Henry – HenryA12@hwbcymru.net
Year 11 - Mrs Sioned James – JamesS252@hwbcymru.net
Year 12/13 - Mrs Annette Tilson - TilsonA1@hwbcymru.net (Head of Sixth Form)
- Mrs Jan Ohlsson Jones – OhlssonJ1@hwbcymru.net (Deputy Head of Sixth)

You can also contact our Pastoral and Behavior Officer Mr Brian Thomas at ThomasB514@hwbcymru.net.

As a school we will depend on your support and co-operation throughout the year ahead. As a school we will aim to keep members of our community healthy and safe; we intend to continue to maintain the highest academic standards.

We look forward to working closely with you again as parents and carers.

Head